YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1902. [CYF. II. RHIF 12.

NODION Y MIS.

ARFEREM feddwl fod pob datguddiad yn nhiriogaeth crefydd wedi gorphen pan ysgrifenwyd y gair diweddaf o'r Beibl. Yn sicr, dyma'r dyb uniongred ar y pwnc hyd yn ddiweddar. Ond ymddengys wedi'r cyfan mai camsynied oeddym yn hyn; oherwydd un o amcanion "Undeb yr Eglwyswyr i hyrwyddo cynydd mewn syniadaeth grefyddol Ryddfrydig" sydd fel y canlyn: "Amddiffyn hawl a dyledswydd yr Eglwys i ad-drefnu ei chred o bryd i bryd yn ol fel y gofynir gan ddatguddiad cynyddol yr Ysbryd Glân."

Sefydlwyd y gymdeithas uchod yn 1898, ac y mae rhai o bobl enwocaf yr Eglwys Sefydledig yn aelodau o honi. Un arall o'i hamcanion yw dwyn o amgylch deimlad mwy cyfeillgar rhwng yr Eglwys Sefydledig a'r enwadau Ymneillduol. I'r dyben hwn gwahoddir dynion enwog o bob enwad i draddodi darlithiau ar bynciau perthynasol i amcan y gymdeithas. Bydd yn ddyddorol i sylwi a wahoddir rhywun o wyr enwog yr enwad Undodaidd—yr unig enwad gwirioneddol ryddfrydig yn y deyrnas.

Yn y ddarlith gyntaf o'r tymor presenol ymddengys fod Dr. Freemantle, Deon Ripon, wedi ymdrin â phynciau dyrys genedigaeth wyrthiol Iesu Grist, ymgnawdoliad, gwyrthiau, Iawn, ac adgyfodiad yn y fath fodd ag i beri i un o'r gwrandawyr i ofyn iddo ar y diwedd, beth oedd y gwahaniaeth rhwng yr hyn a ddywedwyd ganddo ag Undodiaeth? Ni chlywsom beth oedd yr ateb, os rhoddwyd un o gwbl. Os na roddwyd, dyddorol iawn fyddai ei gael.

Un o sylfeini cadarnaf iawnffyddiaeth yw'r athrawiaeth o enedigaeth wyrthiol. Unwaith y llwyddir i ddangos nad oes un sail ysgrythyrol ellir ymddiried ynddi i'r athrawiaeth hon, nid oes amheuaeth na roddir ergyd marwol i'r dduwinyddiaeth uniongred. Hyn a wneir yn effeithiol gan Mr. F. C. Conybeare yn yr *Hibbert Journal* am Hydref. Ni sonir am yr enedigaeth wyrthiol yn yr oll o'r Testament Newydd tuallan i'r penodau cyntaf yn Matthew a Luc; ac y mae tystiolaeth y gweddill o'r Efengylau yn hollol yn erbyn y fath syniad.

Teifl Mr. Conybeare amheuaeth ar yr holl hanes trwy ddyfynu amrywiol ddarlleniadau o Matthew 1: 16 allan o hen ysgrifau o'r Testament Newydd. Dywed fod nifer luosog o'r ysgrifau hyn yn rhoi'r adnod uchod yn yr ystyr a ganlyn: "Jacob a genhedlodd Joseph, i'r hwn wedi ei dyweddio y cenhedlodd y Forwyn Fair Iesu, yr hwn a elwir y Crist." Cyfeiria hefyd at amryw frawddegau yn yr Efengylau y rhaid i'r rhai a gredant yn yr enedigaeth wyrthiol eu gosod o'r neilldu. Cydnabyddir yn gyffredin fod y pwnc yn un anhawdd. ac yn y rhan fwyaf o esboniadau, hyd yn nod yn y rhai diweddaraf, llithrir drosto yn dra ysgafn. Ond y mae yn bwnc y bydd raid i ysgolheigion i'w wynebu yn fuan, a'i drin mewn modd mwy rhesymol nag y maent wedi wneud hyd yn hyn.

Ffyna llawer o ddylanwadau ffafriol i ledaeniad yspryd mwy rhyddfrydig mewn crefydd yn y dyddiau hyn. Nid y lleiaf yw llafur ysgolheigion Beiblaidd perthynol i wahanol eglwysi—yn benaf efallai i Eglwys Lloegr. Mae Geiriadur Beiblaidd Cheyne yn arddangos eonder yn ei driniaeth o lawer o bynciau pigog fyddai yn anmhosibl ugain mlynedd yn ol. Ymdrinia Dr. Driver â'r Hen Destament mewn modd sydd yn awgrymu na wyr efe ddim am y fath syniad ag anffaeledigrwydd y Beibl. Er fod syniadau Deon Ripon ar rai o bynciau pwysicaf y ffydd uniongred wedi creu ystorm yn y cylchoedd Eglwysig, eto nid oes amheuaeth nad yw yn gynrychiolydd o ddosparth cynyddol o'r offeiriadaeth. Saif y ddau gyntaf yn y rheng flaenaf fel ysgolheigion Beiblaidd, a hawlia beth bynag a ddywedir ganddynt sylw pob dyn diragfarn. Gellid ychwanegu enwau llawer o ysgolheigion Eglwysig ac Ymneillduol ereill ydynt yn llafurio yn yr un yspryd.

Mae'r Eglwys Sefydledig wedi cael llawer o'i blino yn ystod yr haner canrif diweddaf gan ymbleidiau—ceir ynddi yr Eglwys Isel, yr Eglwys Eang, a'r Eglwys Uchel, heb son am bleidiau mân ereill.

Heddyw credwn y gwelir arwyddion fod yr Eglwys yn dechreu ymranu i ddwy blaid—un yn cael ei meddianu gan yspryd rhyddfrydig a blaen-fynedol, y llall gan yspryd ceidwadol ac ol-fynedol. Amlwg yw na fydd yr olaf yn foddlon nes bydd y wlad hon unwaith eto wedi ei darostwng yn llwyr dan draed yr offeiriadaeth; a'r cam nesaf ar ol hyny fydd Pabyddiaeth. Mae dwyn i gof amserau dychrynllyd y Chwil-lys Pabaidd a thanau Smithfield yn peri i ni i ddychrynu wrth feddwl fod y fath amserau yn bosibl eto. Eled iawnffyddiaeth lle'r elo, nis gall y sawl a garant ac a werthfawrogant y rhyddid crefyddol a fwynheir genym yn y wlad hon yn awr—yr hwn a brynwyd â gwerthfawr waed y tadau—lai na dymuno llwyddiant a chynydd i'r blaid ryddfrydig yn yr Eglwys.

Pan y gadawyd allan adnod y tri thyst (1 Ioan 5 : 7, 8) o'r Cyfieithiad Diwygiedig, amddifadwyd credinwyr yn y Drindod o un o'r profion ysgrythyrol cryfaf dros yr athrawiaeth hono. Ymddengys fel pe byddai yr un dynged yn ddyledus i Matthew 28 : 19, adnod bwysig arall (fel y tybir) yn ffafr y Drindod. Yn yr erthygl gyfeiriwyd ati eisoes gan Mr. F. C. Conybeare, dygir tystiolaethau cadarn i ddangos nad tebyg i'r Iesu lefaru'r adnod fel y mae yn ein Beibl ni. Dywed y beirniad dysgedig ei fod "wedi cadarnhau'r amheuon hyn parthed dilysrwydd y geiriau, trwy ddwyn tystiolaethau mor bwysig o weithiau'r tadau eglwysig yn eu herbyn fel y gochela'r duwinyddion mwyaf ceidwadol yn y dyfodol rhag sylfaenu arnynt unrhyw adeilad athrawiaethol." Bydd hyn yn golled ychwanegol i amddiffynwyr y Drindod. Ond nid oes un colled heb enill cyfatebol. Diau mai newydd da fydd yr uchod i'r rhai hyny o'n cyfeillion Bedyddiol a ddychrynir gan yr athrawiaeth newydd yn nghylch dull bedydd sydd wedi gweled goleu dydd yn mhlith rhai o honynt yn ddiweddar.

Erbyn y bydd y geiriau hyn mewn argraff, tebyg y bydd y Mesur Addysg wedi ei osod ar ddeddf-lyfr ein gwlad. Pa hyd yr erys yno yn ei ffurf bresenol sydd anhawdd gwybod; ond ni fydd Ymneilldu-wyr Prydain yn deilwng o'u tadau os tawel ymostyngant dan yr iau newydd hon osodir arnynt. Gyda'r mwyafrif sydd gan y Llywodraeth tu cefn iddi gall wthio'r Mesur trwy'r Senedd gan droi yn glustfyddar i bob gwrthdystiad yn ei erbyn; ond pan fydd hyn wedi ei wneud, symudir maes y frwydr i'r wlad, a gall llawer o gyfnewidiadau ddigwydd mewn canlyniad cyn y daw'r adeg i osod y Ddeddf mewn gweithrediad.

Yn yr ymdrech yn erbyn y Mesur hyd hyn, mae'r pleidiau Ymneillduol wedi chwareu eu rhan yn arddèrchog. Efallai, er hyny. mai i'r Dr. Clifford, y Bedyddiwr enwog, fel un dyn, y perthyn y llawryf am yr aiddgarwch gyda'r hwn yr ymdaflodd i'r ymdrech. Mae yn awr yn 65 mlwydd, a gall edrych yn ol ar fywyd cyhoeddus anrhydeddus yn cyrhaedd dros 42 o flynyddau—blynyddau llawn o lafur fel gwleidyddwr, awdwr, a phregethwr. Dim ond am ychydig iawn o ddynion y gellid dyweyd fel y dywed cyfaill a adnebydd Dr. Clifford yn dda mewn bywgraffiad o hono, "Nad yw erioed wedi bod yn anffyddlon, nad yw erioed wedi ofni, nad yw erioed wedi troi ei gefn ar yr achos da, nad yw ei le erioed wedi bod yn wâg mewn adegau o berygl." Gyda phriodoldeb y dywed yr awdwr "fod dynion o fath Dr. Clifford yn halen y ddaear."

Mae'r Dr. hefyd yn awdwr amryw lyfrau duwinyddol gwerthfawr. Nodweddir yr oll o honynt gan yr un ysbryd rhyddfrydig ag sydd mor amlwg yn ei fywyd cyhoeddus. Fel yr oedd y diweddar Mr. Spurgeon yn gynrychiolydd o'r hen ysgol—yr ysgol Galfinaidd—o feddylwyr, ac yn elyn anghymodlawn i bob ymgais i ryddfrydoli duwinyddiaeth ei ddydd, felly mae Dr. Clifford yn gynrychiolydd yr ysgol newydd a rhyddfrydig, ac yn elyn anghymodlawn i bob ymgais i lyfetheirio'r meddwl. Oherwydd hyn drwgdybir ef fel duwinydd gan nifer luosog o'i gyd-weinidogion. Gwneir hyn yn amlwg gan y digwyddiad canlynol. Gofynwyd i weinidog Bedyddiol (Cymreig) un tro, "A ddarllenasoch chwi lyfr Dr. Clifford ar 'Ysprydoliaeth y Beibl'?" "Naddo; nid yw'r fath sothach yn cael d'od i'm ty i."

Nis gallwn adnabod Duw hyd nes y byddom yn Ei garu. Dysga Iesu ni i adnabod Duw drwy Ei ddangos i ni fel Tad a Chyfaill. Drwy ddyfod ato ddydd ar ol ddydd, ymddiried ynddo ac ymorphwys ar ei help, a chredu yn ei ragluniaeth, a galw arno mewn dyheadau a gweddi, fel hyn y deuwn o'r diwedd mor sicr yn mhresenoldeb Duw a'i gariad ac ydym o'n bodolaeth ein hunain.

Mogwch y gydwybod, anwybyddwch garedigrwydd, gwadwch burdeb calon, ac fe gauwch y llygad yn enaid dyn, drwy yr hwn y mae yn gweled Duw.

NYTH Y FRAN.

Meddai cyfaill wrthyf pwy ddydd, gyda rhywfaint o dôn cerydd yn ei lais,

"BETH SYDD FYNO'R 'FRAN' A'R 'METHODIS'

byth a hefyd? Gallaswn feddwl nad oes un enwad arall gwerth wneud sylw o hono heblaw y 'Methodis' yn Nghymru, nac un Sect ag y gall darllenwyr YR YMOFYNYDD ddysgu dim oddiwrthi ond hwy." Yr ateb gonest yw hwn. Nid yw'r 'Fran' yn arfer gwel'd ond un papyr wythnosol Cymreig a hwnw yw y *Goleuad*. Nid yw yn darllen y *Goleuad* oblegid ei bod yn ei ystyried yn bapyr uwchraddol ac wedi ei ddewis ar ol ymchwiliad cymhariaethol o bapyrau ereill. Pell oddiwrth hyny. I'm tyb i nid yw y *Goleuad* i fyny i'r hyn y dylai fod gyda'r holl dalent a dysg a allasai fod at ei wasanaeth, nac yn deilwng o safle yr enwad mae'n gynrychioli. Ond rhaid i mi ddweyd ei fod yn *organ* Cyfundeb ag yr ydwyf fi yn teimlo dyddordeb neillduol yn ei weithrediadau, rhagor felly nag un o'r cyfundebau mawrion eraill ydynt, yn mrwydr bodolaeth, yn ymwthio am y lle blaenaf yn Nghymru y dyddiau hyn. "Pa'm hyny?" meddai rhywun. "Wel, mi dd'wedaf wrthych, pa'm, mor fyred ag y gallaf."

(1) Mae rhywbeth ynddo sydd wedi cymhwyso ei hun at yr ysbryd cenhedlaethol, yr anianawd Gymreig, fel y gellir ei galw, yn fwy nag un enwad arall. Mae hanes yn dangos nad yw'r Eglwys Sefydledig oddiar y Diwygiad ddim wedi gosod ei hun mewn cydymdeimlad â chalon Cymru. Wn i ddim lle y buasai hi heddyw oni bai yr amddiffynfeydd allanol sydd wedi ei hategu trwy'r oesau. Tynwch yr offeiriad gyda'i

DDEGWM YN FFON BYWYD,

a dylanwad y *local squire* allan o'i hanes mewn canoedd o blwyfi, a beth am ei bodolaeth hi wedi'n? Nid yw Wesleyaeth chwaith wedi gwneud ei ffordd yn Nghymru yn debyg i'r mesnr allesid ddisgwyl oddiwrth ei llwyddiant mewn gwledydd ereill. Yr oedd gan yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr fanteision neillduol i feddianu'r tir tua dechreu y ddeunawfed ganrif, ond araf iawn oedd eu cynydd, hyd nes iddynt ddyfod i afael nerthoedd symudiad newydd tuallan iddynt a greodd chwyldroad hyd at waelodion cymdeithas. *Exotics* oedd y rhai hyn i gyd, planigion tramor wedi eu trawsblanu, ac *ar eu penau eu hunain*, yn anghydnaws ag awyr a *soil* y wlad. Ond yr oedd Methodistiaeth yn blanigyn naturiol, yn gynyrch

wirfoddol y meddwl a'r yspryd Cymreig; ac fe flagurodd gyda'r cyflymder allesid ddisgwyl pan oedd holl ddylanwadau nefoedd a daear yn cydweithio er ei dyfiant. Mae'r adfywiad mawr Methodistaidd yn un o'r *landmarks* mwyaf amlwg yn hanes Cymru; ac mae ei ffrwyth gweledig heddyw wedi ei gorffori mewn enwad a ymddengys i mi fel yn cynhwys ynddo ei hun hadau dadblygiad y meddwl a'r bywyd crefyddol uwchaf yn Nghymru yn yr ugeinfed ganrif. (2) Mae i'r enwad hwn ei ragoriaeth arbenig hefyd pan y meddyliwn am ei allu fel trefniant; ac yn hyn meddyliaf ei fod yn esiampl i bob cyfundeb arall trwy'r wlad. Adroddwch mor aml a mynoch y ffaith, fod yn rhaid wrth fywyd cyn cael trefniant, ac mai bywyd sydd yn gwneud y trefniant, mae'n ffaith hefyd, mai'r anifail uwchaf ei drefniant (*organization*)—dyn—sydd wedi gwneud y gwaith mwyaf ar y ddaear; a'r corff crefyddol lluosocaf ei ymlynwyr, eangaf ei weithrediadau tufewn i Gristionogaeth heddyw—y *Roman Catholics*—yw y corph manylaf a mwyaf perffeithiedig ei drefniant. Mae cynydd enfawr Wesleyaeth trwy yr holl gyfandiroedd mewn yspaid fechan o amser mewn cymhariaeth, yn esiampl o'r un egwyddor. Yr oedd ymgais Dr. Martineau yn Nghynadledd Leeds, yn 1888, i wneud ryw drefn ar Undodiaeth, yn gystal ag eiddo Dr. Parker eleni yn yr Undeb Cynulleidfaol i ddwyn eglwysi yr enwad hwnw i berthynas agosach a mwy ffrwythlon a'u gilydd, yn gyfaddefiad o

Wendid yr Egwyddor Annibynol

mewn llywodraeth Eglwysig. Mae'n beth mawr i gael y rhai a safant dros yr un egwyddorion i ddeall y naill y llall fel ag i gydweithio, ac i ddwyn eu galluoedd gwasgaredig at eu gilydd i ymladd o dan yr un faner. Dyma'r hyn mae y Methodistiaid wedi bod yn ymgeisio am dano trwy eu holl hanes, ac mae y llwyddiant mawr sydd wedi dylyn eu hymdrechion wedi bod yn ddyledus i raddau pell, i'r sylw neillduol maent wedi roddi i drefniant eu galluoedd, ac i'r dyddordeb mae pob aelod, a phob eglwys unigol yn deimlo at y corph yn gyffredinol. Gelwir yr enwad "Yr Hen Gorph" gyda rhyw gysgod o ddiystyrwch ar ambell i dro; ond gan nad beth am hyny, mae yr uchelgais santaidd i sylweddoli yr *ideal* o "aelodau lawer mewn un corph" wedi bod yn un o ddirgeledigaethau ei gynydd a'i safle uchel yn Nghymru. (3) Ei ddifrifoldeb moesol, manylwch ei ddysgyblaeth, a'r gwasanaeth anmhrisiadwy mae wedi wneud i hyrwyddo diwygiadau moesol. Yn hyn mae yn adgynyrchu yn ein hoes ni rai o nodweddion goreu y cyfnod Puritanaidd, a thu cefn i hyny y Galfiniaeth sydd wedi bod yn allu mor nerthol mewn hanes. Mae'n bosibl fod Calfiniaeth fel cyfundrefn o feddwl wedi gweled ei dyddiau goreu. Dywedai Dr. Dale mai

Spurgeon oedd y Calfiniad diweddaf.

Ond yn ddiddadl, mae'r syniad Calfinaidd am Benarglwyddiaeth Duw, yr argyhoeddiad yn nghalonau dynion eu bod yn offerynau yn llaw Duw i ddwyn ei amcanion i ben, wedi eu galluogi i wneud eu rhan yn wrol yn mrwydr bywyd, ac i gyflawni gorchestion yn achos rhyddid a chyfiawnder. Mae Methodistiaeth Gymreig wedi cario allan ei chenhadwri yn yr awyrgylch foesol hon, ac erys Cymru o dan rwymau iddi byth am y rhan bwysig mae wedi gymeryd yn y frwydr dros ddirwest a diwygiadau moesol o bob math ydynt wedi tueddu i buro a derchafu bywyd y genedl. Yn nghyffro meddyliol yr oes hon mae y Galfiniaeth, sydd wedi rhoddi enw iddi, yn debyg o gael ei thaflu o'r neilldu; ond yn wyneb yr ysgafnder (*frivolity*) sydd yn graddol ymlithro i bob haen mewn cymdeithas, *ideals* uwchaf bywyd yn cael eu hanwybyddu, a hanes yn *repeato* ei hun trwy fod Cythraul yr Yspryd Offeiriadol

mewn undeb a llywodraeth bwdwr yn bygwth ein breintiau a'n rhyddid, fyddwn ni ddim allan o le wrth ddisgwyl y bydd yr enwad Cymreig sydd yn honi ei berthynas a Chalfin yn parhau, er colli llawer o allanolion ei gredo, i gadw yn ddilwgr y difrifoldeb a'r dewrder moesol sydd wedi gwneud Calfiniaeth yn elfen mor iachus yn hanes diweddar gwareiddiad y byd. (4) Nodyn arbenig arall yn mywyd yr Enwad ydyw ei *ideal* uchel am addysg y weinidogaeth a'r *ideal* hono wrth gwrs yn adlewyrchiad o safle gwrteithiedig yr Enwad fel cyfangorph. Mor fawr ydyw'r cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle yn yr *outlook* oddiar yr amser (1830) pan yr elai Lewis Edwards, yn bregethwr ieuanc a'i syched yn angerddol am ddysg, oddiamgylch y wlad, o un Gymdeithasfa i'r llall,

A'I GAP YN EI LAW,

yn gofyn caniatad y tadau i fyn'd i Goleg y Brifysgol yn Llundain *ar ei gost ei hun.* Mae yr olygfa hono yn Nghymdeithasfa Woodstock y tro mwyaf *pathetic* yn hanes addysg uwchraddol yn Nghymru—Tomos Richards, Abergwaen, yn dwrdio Edwards yn erchyll am feiddio meddwl myn'd i'r coleg heb ganiatad, a'r bachgen y pryd hwnw yn 21ain oed, yn tori allan i wylo,

A'I DDAGRAU GLOYWON

yn enill cydymdeimlad y blaenoriaid, fel y gorfodwyd i Thomas Richards ac ereill i roddi ffordd. Arwydd o wendid a balchder, mae'n debyg, mewn dyn ieuanc y pryd hwnw oedd dangos un awydd am wybodaeth. Arwydd o gryfder ac o gymhwysder at y weinidogaeth oedd ymddibynu yn gyfangwbl ar yr Ysbryd Glân am bob peth. Dylai darlun o'r olygfa ydwyf wedi grybwyll fod yn ystafell fyfyrio pob pregethwr Methodistaidd i'w adgofio am un o'r digwyddiadau mwyaf *touching* yn hanes Methodistiaeth—y weithred hono o rydd-freiniad y weinidogaeth a gyflawnodd Lewis Edwards, y cyntaf yn nghyfres hir y bendithion a gyfranodd ef i'w enwad ac i Gymru fel un o brif garedigion addysg ei wlad yn y bedwaredd ganrif-ar-bymtheg. Synwn i ddim na fydd "Athrawiaeth yr Iawn" yn gystal a'r rhan fwyaf o'i gynyrchion llenyddol ereill yn cael eu hangofio gyda threigliad y blynyddau, ond erys ei enw yn anfarwol ar gyfrif y gwasanaeth a wnaeth i'w enwad ei hun, yn uniongyrchol, trwy dderchafu safon addysg y weinidogaeth mor uchel, a chysegru ei oes i gario allan, yn wyneb llawer o wrthwynebiad yr addysg hono ar linell ei *ideals* ei hun. A ffrwyth llafurus gariad Dr. Lewis Edwards mewn gwirionedd ydyw gweinidogaeth gymhwys a chwrteithiedig ei enwad, yn yr oes hon rhagor felly ar y cyfan nag un enwad nac eglwys arall yn Nghymru. A fyddwn i yn *wrong* i gasglu yn wyneb yr holl ystyriaethau hyn fod yr enwad mawr Methodistaidd i chwareu rhan bwysig yn hanes Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif? Ni ellir disgwyl iddo ef mwy nag un cyfundeb arall aros yn yr un man, gyda llanw y meddwl crefyddol yn chwyddo i fyny at ei draed o bob cyfeiriad. Ond er i agweddau duwinyddiaeth gyfnewid, ac i lawer syniad a ymddengys heddyw mor ddiysgog a'r graig i ddiflanu, credaf fod gan yr enwad Methodistaidd fantais neillduol i droi yr holl gyfnewidiadau i fod yn fendithion ac i

DDIOGELU HANFODION CREFYDD

mewn ffurf nas gall amser na dim arall wneud un niwed iddynt. Rhagymadrodd ydyw'r uchod i gyd er mwyn cyfiawnhau fy hun pan yn dychwelyd at y Methodistiaid unwaith eto i gyfeirio at symudiad neillduol sydd wedi ei gychwyn yn eu plith yn ddiweddar. Mae yr arweiniad wedi myned mor hir fel nas gallaf ond braidd crybwyll y mater. Cyfeiriwyd yn y rhifyn diweddaf o'r YMOFYNYDD at y ffaith nad yw'r Gyffes Ffydd yn cael ei darllen fel y dylai, ac er mwyn gwneud i fyny y

diffyg mae un o aelodau cyfarfod misol Dyffryn Clwyd wedi awgrymu y byddai yn beth priodol i ffurfio Credo yn gosod allan brif ddaliadau duwinyddol yr enwad er mwyn ei defnyddio yn yr addoliad ar y Sul, fel mae Credo yr Apostolion yn cael ei defnddio yn Eglwys Lloegr. Anfonodd Golygydd y *Goleuad* at amryw weinidogion i geisio ganddynt roddi eu barn ar y mater. Cynhwysa un o'r rhifynau dylynol gyfres o lythyrau mewn attebiad. Yr wyf wedi eu darllen gyda llawer o ddyddordeb. Hen bwnc cynefin i ni fel Undodiaid ydyw "credo," ac mae'n syndod mor debyg mae rhai o'r llythyrau yn darllen a phe buasent wedi eu hysgrifenu gan Undodiaid. Mae pob arwydd fod y

CROCHAN DUWINYDDOL

yn berwi gyda llawer o fywiogrwydd yn yr enwad Methodistaidd ; ac ni synwn nad ydyw cynllun y gredo yma wedi ei fwriadu i *stoppo'r* crochan i ferwi. Mae yma ambell i osodiad mor eithafol fel nas gallaf wneud ond synu wrth ei ben. Dywed gweinidog o Sir Aberteifi fod "cyfeiliornad mewn barn yn waeth na chyfeiliornad mewn buchedd." Cyfieithwch y syniad yna i'r *concrete*, a gwelwch sut mae e'n edrych. Dyna sotyn meddw ac anllad yn rhodio fel pla moesol ar hyd heolydd Boston yn yr Unol Dalaethau yn y flwyddyn 1836, dywedwch ; ond gyda golwg ar ragolygon ei dynged mewn byd arall, yr oedd ganddo well siawns na Dr. Channing oedd ar yr un pryd yn pregethu Undodiaeth yn nghapel *Federal Street*, a'r hwn sydd yn cael ei gydnabod dros yr holl fyd gwareiddiedig, erbyn heddyw, fel un o oleuadau dysgleiriaf ac un o saint mwyaf duwiolfrydig y bedwareddganrif-ar-bymtheg. "Mae cyfeiliornad mewn barn yn waeth na chyfeiliornad mewn buchedd." *No, that will never do.* Mae unryw dduwinyddiaeth sydd yn euog o rywbeth angenfilaidd fel yna, 'does dim gwahaniaeth pa mor hen ac iawnffyddol ydyw

YN HUNAN-GONDEMNIEDIG.

Gosodwch rywbeth gwell na hyna yn y gredo, neu gadewch iddi. A chynghori y Methodistiaid i'w gadael yn llonydd wnawn i, pe buaswn yn cael cyfleusdra. Mae yn dda genyf hefyd fod y Parch. John Thickens, Aberayron, o'r un farn am y rhesymau canlynol yn mhlith ereill. Sylwer fod arogl yr yspryd diweddar o ryddymofyniad yn drwm arnynt, ac fe gynghorwn Mr. Thickens i gofio fod cyfeiliornad mewn barn yn waeth na chyfeiliornad mewn buchedd. Dyma rai o resymau Mr. Thickens dros beidio gwel'd priodoldeb mawr mewn "darparu Datganiad o Ffydd y Corph mewn ffurf Credo."

(1) "Fod ein duwinyddiaeth yn bresenol yn myned trwy gyfnewidiadau mawrion.

(2) "Nad yw y canghenau hyny o'r Eglwys a roddant fri mawr ar 'gredo' yn nemawr iachach eu duwinyddiaeth, uwch eu hysprydolrwydd, a defnyddiolach i deyrnas nef nag ereill heb ffurf bendant ar gredo.

(3) "Yr ofnaf mai effaith credoau parod yw parlysu meddylgarwch, a rhwystro datblygiad meddyliol."

Y FRAN.

Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo trostynt mae y gwynt,
Clywir eto gyda'r wawr,
Gân bugeiliaid megis cynt.—*Ceiriog.*

Y BEIBL: YR HEN A'R NEWYDD.

V.—Y Prophwydi.

Nifer llyfrau y rhan hon o'r Hen Destament yn dechreu gydag Esaiah, yn diweddu gyda Malachi, yw pymtheg. Yn eu plith ceir dau lyfr o natur arall, sef Jeremiah a Daniel. Sylwir ar y ddau hyn mewn erthygl arall. Mae'r tri cyntaf yn gymharol faith, tra nad yw'r gweddill ond byr, a gelwir hwy yn fynych "Y Prophwydi Byrion." Y rhai hyn fydd dan sylw y tro hwn.

Ystyr y gair a gwaith y Prophwyd.

Mynych y clywir y gofyniad, beth yw gwaith prophwyd? A'r ateb bron yn ddieithriad yw—un yn rhag-ddyweyd pethau i ddyfod. Ond mae'r ateb hwn yn gamarweiniol, oherwydd nid hyn yw ystyr wreiddiol y gair mewn un modd; ond golyga yn hytrach "un yn llefaru yn lle arall," "dehonglwr ewyllys Duw," "dysgawdwr ysprydoledig," "cyhoeddwr cenadwri." Gyda phriodoldeb y geilw un awdwr y prophwyd yn "dymhestl-fynegydd" gwlad neu genedl. Ai nid oedd y prophwydi gynt yn rhag-ddyweyd pethau i ddyfod? Dim yn mhellach nag y galluogwyd hwy i wneud hyny gan arwyddion eu hamserau. Mae genym ddigon o enghreifftiau o hyn yn y Beibl. Pan oedd Sedeciah frenin yn teyrnasu yn Jerusalem o dan frenin Babilon, gwnaeth gais am gymorth oddiwrth frenin yr Aipht i daflu ymaith yr iau Fabilonaidd; a chawn fod Ezeciel, pan glywodd am hyn, wedi rhybuddio pobl Jerusalem i beidio ufuddhau i Sedeciah yn hyn o beth, oherwydd mor fuan ag y delai hyn i glustiau brenin Babilon, byddai yn sicr o ymosod ar Jerusalem yr ail waith, a chludo Sedeciah a hwythau i Babilon; yr hyn hefyd a ddaeth o amgylch. Beth oedd yn galluogi Ezeciel i rag-ddyweyd y digwyddiad hwn? Yr oedd ei adnabyddiaeth o gymeriad brenin Babilon yn eithaf digon. O'r un natur yw'r oll o brophwydoliaethau ereill yr Hen Destament. Beth am y prophwydoliaethau am Grist? Ni ddeil un beirniad Beiblaidd o unrhyw nod fod yr ymadroddion yn yr Hen Destament a gymhwysir at Iesu Grist yn cyfeirio ato ef yn ddechreuol mewn un modd. Efallai y sylwn ar hyn eto.

Amserau'r Prophwydi.

Oes euraidd y genedl Iuddewig oedd amser teyrnasiad Dafydd a Solomon—yn y cyfnod hwn mwynhaodd y fath lwyddiant na ddaeth ei gyffelyb i'w rhan na chynt nac wedi hyny. Ar ol marwolaeth Solomon, yn mrenhiniaeth Rehoboam, ymneilldudodd Israel, y deg llwyth gogleddol, oddiwrth Judah a Benjamin, a dewisodd Jeroboam i lywodraethu arnynt, tra y glynodd y dau lwyth a enwyd olaf wrth Rehoboam, mab ac olynydd Solomon. O hyn allan, cythryblus iawn fu'r ddwy gangen hyn o'r genedl hyd eu darostyngiad dan iau y cenhedloedd cylchynol—yn wir hyd eu llwyr wasgariad yn nechreu'r cyfnod Cristionogol. Cymerodd y rhwygiad le yn 975 C.C. Cadwodd Israel ei hanibyniaeth hyd y darostyngwyd ac y cludwyd hi i gaethiwed gan yr Assyriaid 722 C.C. Yn ystod y cyfnod hwn bu pedwar ar bymtheg o frenhinoedd yn llywodraethu arni. Cadwodd Judah ei hanibyniaeth hyd ddechreu'r 6ed

ganrif, a bu ugain o frenhinoedd yn llywodraethu arni. Yn 597 C.C., cludwyd nifer luosog (deng mil, fel y dywedir) o bobl Judah i Babilon ; ac yn 586 C.C. cludwyd y rhan fwyaf o'r gweddill yno hefyd, lle y buont hyd y rhyddhawyd hwynt gan Cyrus yn 538 C.C., ac y caniatawyd iddynt i ddychwelyd i'w gwlad. Mae'n amlwg na ddychwelodd ond cyfran o honynt ar yr adeg hono—dim ond oddeutu 50,000. Cawn fod nifer fechan (oddeutu mil a haner) wedi dychwelyd dan arweiniad Ezra yn 458 C.C. Ond, er hyn, yr oedd gogoniant y genedl wedi ymadael â hi, a bu o hyny allan dan lywodraeth un neu'r llall o'r galluoedd mawr cylchynol. A dylanwadodd ei chysylltiad a'r galluoedd hyn yn fawr arni —yn arbenig ar ei syniadau a'i harferiadau crefyddol.

Y Prophwydi a'r Genedl.

Dyry'r llyfrau prophwydoliaethol i ni bortread cyflawn o'i chyflwr yn ystod yr amserau cythryblus hyn. I'r prophwydi yr oedd cenedl Israel yn bobl ddewisedig Duw—yr oedd Duw wedi addaw bod yn amddiffynydd iddynt cyhyd ag yr ufuddhaent iddo. Ond anghofient yn barhaus y cyfamod rhwng Duw a hwynt, a'i ofynion oddiwrthynt, a syrthient i anufudd-dod a phechod mewn canlyniad. Hyn yw baich cwyn pob un o'r prophwydi yn eu herbyn : mai'r anufudd-dod hwn oedd yr achos o'u holl flinderau. A gwnelai Duw ddefnydd o'r galluoedd cylchynol i'w darostwng, fel, trwy gael eu puro gan adfyd, yr adferid hwy i ufudd-dod. Gwaith arbenig y prophwyd oedd darbwyllo'r bobl i ymwrthod ag eiluna-addoliaeth a phechod, a rhoi i'r Arglwydd yr ufudd-dod a ofynai oddiwrthynt ; a hefyd eu rhybuddio o'r perygl o barhau yn eu hanufudd-dod. Gosodir gwaith y prophwyd allan yn weddol gywir a chyflawn yn y crynodeb a ganlyn o gynwys y benod gyntaf o Esaiah : "Esaiah yn achwyn ar Judah am ei hanufudd-dod ; yn gofidio am ei barnedigaethau hi ; yn anog i edifeirwch trwy addewidion a bygythion ; yn cwyno eu hanuwioldeb hwy, ac yn datgan barnedigaethau Duw ; yn addaw gras ; ac yn bygwth dinystr yr anuwiol." Mewn gair, mae gwaith y gwir brophwyd a'r gwir bregethwr yn hollol o'r un natur ; a chasgliad o bregethau'r prophwydi yw'r llyfrau dan sylw.

Y Prophwydi Hiraf.

Y rhai hyn ydynt y tri cyntaf—Esaiah, Jeremiah, ac Ezeciel. Fel mai casgliad o ysgrifau wedi eu cyfansoddi ar wahanol amserau yw'r rhan fwyaf o'r llyfrau hanesyddol, felly hefyd cynwysa y rhan fwyaf o'r llyfrau prophwydoliaethol waith amryw awduron, yn byw rai o honynt amser maith oddiwrth eu gilydd. Nid haeriad disail yw hyn, ond gorphwys ar seiliau nad oes le i amheu ei gywirdeb—mae'n ffrwyth myfyrdod ac ymchwiliad gonest ar du ysgolheigion Beiblaidd goreu y ganrif ddiweddaf, rhwng y rhai, er nad ydynt yn hollol gyd-uno mewn perthynas i rai rhanau o gynwys y llyfrau hyn, eto y bodola perffaith unfrydedd yn y rhan fwyaf o achosion. Dechreuodd gyrfa

Esaiah

fel prophwyd oddeutu 740 C.C., a pharhaodd hyd (o leiaf) ddiwedd y ganrif. Nid Esaiah, fodd bynag, yw awdwr yr oll o'r llyfr elwir ar ei enw yn ein Beibl ni. Iddo ef y perthyn y rhan fwyaf (ond nid yr oll) o i.—xxxix. Ysgrifenwyd yr oll o xl.—lxvi. ar ol 549 C.C., gan bwy ni ellir dyweyd. Palla gofod i roi yma y rhesymau dros y casgliadau uchod ; ond gellir sylwi y seilir hwynt bron yn hollol ar gynwys y llyfr ei hun. Felly, er fod rhanau o hono wedi eu hysgrifenu yn gynar, eto nis gall y llyfr fod wedi d'od i'w ffurf bresenol cyn (o leiaf) ddiwedd y 6ed ganrif C.C., ar ol y dychweliad o Babilon. Dechreuodd

Jeremiah

brophwydo yn 626 C.C., a pharhaodd i wneud hyny hyd y gaethglud yn 586 C.C., efallai ychydig yn rhagor. Pan ddarostyngwyd Jerusalem yn y flwyddyn olaf a enwyd, arhosodd Jeremiah yn Judea ; ond yn fuan ar ol hyny, symudwyd ef i'r Aipht, lle y parhaodd i brophwydo am ryw gymaint o amser. Yn ol yr hyn ddywedir yn xxxvi, ysgrifenwyd ei brophwydoliaethau gan Baruch o enau'r prophwyd ei hun yn 604 C.C. ; ac ar ol i'r ysgrif hono gael ei dinystrio gan y brenin Jehoiacim, ail-ysgrifenwyd y prophwydoliaethau drachefn gan yr un person, ac ychwanegwyd llawer at yr hyn a ysgrifenwyd gyntaf. Nid oes amheuaeth nad eiddo Jeremiah yw bron yr oll. Yr unig eithriadau yw l. a li., y rhai a ysgrifenwyd ychydig cyn cwymp Babilon yn 538 C.C., a lii., cynwys yr hon sydd yr un a 2 Bren. xxiv. 18—xxv. 30. O ran eu hyspryd, mae prophwydoliaethau Jeremiah yn wahanol iawn i'r eiddo Esaiah. Mae'n llawn cwynfan, colla ei ffydd i'r fath raddau fel y cyhudda'r Arglwydd o dwyll, a geilw yn barhaus ar y genedl i barotoi ar gyfer y dinystr oedd yn eu haros. Mewn gair, gellir ystyried Esaiah (ar y cyfan) yn brophwyd gobaith, tra, gydag eithriadau, mae anobaith yw'r elfen amlycaf yn Jeremiah. Bu

Ezeciel

yn prophwydo rhwng 592 a 570 C.C., a'i eiddo ef yw'r oll o'r llyfr a elwir ar ei enw. Yr oedd yn un o'r caethion a gludwyd i Babilon yn 597 ; ac yno, ar afon Chebar, y traddododd ei brophwydoliaethau, y rhai a ymdriniant â chyflwr y genedl Iuddewig cyn cwymp Jerusalem (i.—xxiv.), â chwymp y cenhedloedd cylchynol (xxv.—xxxii.), ac â chyflwr yr Iuddewon drachefn ar ol dinystr Jerusalem (xxxiii.—xlviii.). Er i'r prophwydoliaethau hyn gael eu traddodi rhwng y blynyddau uchod, tebyg na ysgrifenwyd hwynt am gryn amser ar ol hyny.

Y Prophwydi Byrion—cyn y Gaethglud.

Y llyfr prophwydoliaethol henaf yn yr Hen Destament yw Amos. Parhaodd ei dymor ef fel propwyd o oddeutu 760 hyd oddeutu 746 C.C. Ni wyddis rhagor o'i hanes nag a roddir yn y llyfr, lle y dywedir mai bugail yn Tecoa (Judah) ydoedd, yr hwn, er na chafodd y parotoad arferol ar gyfer swydd prophwyd, eto a anfonwyd gan yr Arglwydd i rybuddio ei gyd-genedl rhag y dinystr oeddynt yn dwyn arnynt eu hunain trwy eu gloddest, eu balchder, eu gormes, yn nghyd a'r pechodau arferol a dardd o lwyddiant. Ar ei ol ef daeth Hosea, efallai rhwng 746 a 734 (neu 722 yn ol barn rhai), ac felly yn y cyfnod pan oedd cwymp Israel yn agoshau. Fel yn llyfr Amos, mae'r darlun rydd o gyflwr ei fobl yn druenus i'r eithaf. Dywed : Nid "oes na gwirionedd, na thrugaredd, na gwybodaeth o Dduw yn y wlad" ; ond "tyngu, a dywedyd celwydd, a lladd celain, a lladrata, a thori priodas" ; a ffynai delw-addoliaeth hefyd yn gyffredinol. Ond er hyn, teimlai'n sicr fod Duw yn caru'r genedl, ac ond iddi edifarhau, byddai efe yn sicr o drugarhau. Oddeutu'r un adeg y bu Micah yn prophwydo—oddeutu adeg cwymp Israel yn 722 ; a'r un yw tôn ei brophwydoliaethau yntau. Gwneir llyfr Micah, fel y mae gyda ni, i fynu o amryw ysgrifau—tair o leiaf—yn perthyn i wahanol amserau. Dim ond y pum' penod gyntaf ysgrifenwyd gan Micah ; daeth y vi.—vii. 6 i fodolaeth yn ystod teyrnasiad Manasseh yn y 7fed ganrif, a'r vii. 7—20 yn ystod y caethiwed yn Babilon. Perthyn prophwydoliaethau Nahum a Zephaniah i'r haner olaf o'r 7fed ganrif (yr olaf cyn 621), a Habacuc i derfyn yr un ganrif. Am yr oll o'r prophwydi sydd a'u henwau wrth y llyfrau uchod nid oes genym ond ychydig iawn o wybodaeth. Y rhai hyn, yn nghyd

a rhanau o Esaiah, Jeremiah, ac Ezeciel (fel y sylwyd) ydynt yr ysgrifeniadau prophwydoliaethol cyn y gaethglud (586 C.C.). Dyddorol fyddai sylwi yn fyr beth oedd gofynion yr Arglwydd, neu beth oedd crefydd, yn yr amserau hyn. Gosodir swm eu haddysg ar y mater hwn allan yn gyflawn yn Micah. Mae un o'r bobl yn gofyn (vi.) "â pha beth y deuai ger bron yr Arglwydd"? Atebir ef gan y prophwyd fel hyn: "Dangosodd efe i ti, ddyn, beth sydd dda: a pha beth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyd â'th Dduw." Dyna beth oedd sylwedd crefydd yn yr amserau hyny. Dyna beth ydyw heddyw hefyd.

Y Prophwydi Byrion—ar ol y Gaethglud.

Perthyn y gweddill o'r llyfrau prophwydoliaethol (gydag eithriadau) i'r cyfnod ar ol y gaethglud. Y cyntaf o honynt o ran amser oedd llyfr Obadiah, yr hwn a ddaeth i fodolaeth yn fuan ar ol i'r genedl gael ei chludo i Babilon. Er y credir gan lawer fod Joel mor hen a'r 9fed ganrif, eto, gan y rhan fwyaf, gosodir ef ar ol y gaethglud—tua diwedd y 5ed ganrif. Nis gall fod un amheuaeth am ddyddiad Haggai a Zachariah (gwel adnod 1 yn y ddau)—oddeutu 520—518. Pan ddychwelodd yr Iuddewon o Babilon yn 538, aethant yn nghyd ag adeiladu'r deml yn ddioedi; ond oherwydd y rhwystrau osodid ar eu ffordd gan eu gelynion, gorfu iddynt roi'r gwaith o'r neilldu. Ac amcan y ddau brophwyd olaf a enwyd oedd eu hanog i ail-ddechreu'r gwaith a'i gwblhau. Dywed Haggai mai eu hesgeulusdod i adeiladu'r ty oedd achos eu holl anffodion ar eu dychweliad i'w gwlad. Yr un yw cenad Zechariah; gwneir rhan helaeth o'r llyfr i fyny o weledigaethau, trwy y rhai y portreadai'r amser hyfryd oedd i dd'od, ac yr anogai hwynt i adeiladu'r deml, heb yr hyn ni ddelai'r amser hwn i'w rhan. Dim ond yr wyth penod gyntaf briodolir i Zechariah. Bernir fod y brophwydoliaeth yn ix.—xi. mor hen a'r 8fed ganrif, ond ei bod wedi ei chymhwyso gan rywun at amgylchiadau cynhyrfus y 4edd neu'r 3edd ganrif; a bernir gan rai fod xii.—xiv. wedi eu hysgrifenu ychydig cyn y gaethglud, gan ereill, ychydig ar ol hyny. Perthyn llyfr Jonah yn debygol i'r 5ed ganrif; ond ni wyddis pwy yw ei awdwr. Sonir am Jonah fel prophwyd yn 2 Bren. xiv. 25. Nid oes dim o'i brophwydoliaethau ar glawr. Proffesa'r llyfr dan sylw roddi hanes digwyddiad neillduol yn mywyd Jonah. Gesyd ormod o dreth ar y meddwl i gredu fod yr hyn gofnodir ynddo erioed wedi cymeryd lle. Math o chwedl ydyw yn debygol (wedi ei seilio efallai ar draddodiad), fel llyfrau Ruth, Esther, a Daniel, ac wedi eu hysgrifenu gydag amcan neillduol. Beth, yn gywir, oedd yr amcan hwn, sydd anhawdd penderfynu. Mae'r hyn dywed Dr. Driver ar y mater mor rhesymol ag un o honynt. Yn yr adeg yr ysgrifenwyd y llyfr (yn y 5ed ganrif), yr oedd y genedl Iuddewig, o dan arweiniad Ezra a Nehemiah yn benaf, yn credu nad oedd Duw yn gofalu nac yn meddwl am neb fel y gwnai am danynt hwy. Ac efallai fod y llyfr hwn wedi ei ysgrifenu gan un o feddwl mwy rhyddfrydig na'r cyffredin i ddangos fod Duw yn gofalu am bawb yn yr un modd.

Disgybl.

"Segurdod yw clod y cledd
A rhwd yw ei anrhydedd."

Y DIWEDDAR BARCHEDIG BROFFESWR EVANS.

Gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

Dywed ei fab, y Parch. George Eyre Evans, wrth "anrhydeddu ei dad" yn y *Welsh Gazette*, iddo gael ei eni yn mhlwyf Llanwenog ar ystâd Major Evans, Highmead, yn y flwyddyn 1813. Tebyg fod hyny yn gywir, ond yn Ffynon Inglis, yn mhlwyf Llanybyther, y mae'r bobl henaf sydd yn byw yn y gymydogaeth yn awr yn cofio'r teulu. Mab ydoedd i Esau Evans, a Margaret ei wraig. Ganwyd ei dad yn mhlwyf Cilrhedyn, a dygwyd ef i fynu gan y gwr da hwnw, Benjamin Evans, Gelynen, noddwr mwyaf galluog ac aiddgar Cristionogaeth rydd yn Pantteg, a thad y wraig rinweddol hono, Mrs. Evans, Maesymeillion. Yr oedd y rhieni yn aelodau selog yn Alltyplaca, ac yno y byddai'r plant, un mab a phedair merch, yn cyrchu tra y bu'n gyfleus iddynt i wneud hyny. Yn Alltyplaca ar foreu Sul cymundeb yr oedd gwrthrych ein cofiant yn cofio Dafis Castellhywel yn pregethu, a Iolo Morganwg yn un o'r gwrandawyr. Yr ysgol gyntaf a gafodd a gedwid gan hen grydd o'r gymydogaeth ag oedd wedi methu gyda'i grefft oherwydd ei anghymedroldeb. Yn raddol, fodd bynag, fe drodd amgylchiadau er gwell i'r efrydydd ieuanc. Ymsefydlodd y Parch. William Jones, o Athrofa Caerfyrddin, yn weinidog yn Rhydybont, ac agorodd ysgol ramadegol yn y gymydogaeth, i'r hon yr aeth yr ysgolhaig ieuanc, a gwnaeth gymai nt o gynydd fel y ceisiodd Major Evans, Highmead, ganddo fyned i gadw ysgol yn Llanwenog, yr hyn a wnaeth am dymor yn llwyddianus iawn. Bu am beth amser wedi hyn yn gynorthwywr i'r Parch. John Davies, gweinidog Alltyplaca y pryd hwnw, yn ei ysgol a gedwid ar yr adeg hono yn Blaenbydernyn. Yn y flwyddyn 1834 derbyniwyd ef yn efrydydd i Athrofa Bresbyteraidd Caerfyrddin. Y Parch. David Peter oedd y prif athraw a'r athraw duwinyddol am y flwyddyn gyntaf, a'r Parch. Dr. David Lloyd am y gweddill o'i amser yn y sefydliad. Ei gyd-efrydwyr oeddent y Parchn. William Arthur Jones, Taunton; Joshua Lewis, Henllan; Thos. Evans, Kingswood; William Williams a Michael Thomas. Daeth y Parch. J. R. Kilsby Jones yno flwyddyn ar ei ol. Wedi gorphen ei amser yn yr Athrofa, y mae yn ymsefydlu yn Llandeilofawr yn weinidog Onenfawr, ac yn cadw ysgol yn y dref. Nid yw ei arosiad yma yn hir, oblegid yn 1839 y mae yn derbyn galwad i fyned i weinidogaethu i Bloxham a Milton, yn swydd Rhydychen. Yn 1843 cawn fod y Parch. John Edward Jones, Penybont-ar-Ogwy, yn llwyddo i'w gael yn ol i'w gynorthwyo ef yn ei ysgol a'i weinidogaeth. Bu yma am 7 mlynedd yn ddedwydd a llafurus iawn. Bodolai y cydgordiad goreu rhyngddo a Mr. Jones, ac a phawb yn y gymydogaeth. Yn 1847 penderfynwyd gan weinidogion yr enwad i gychwyn misolyn, ar egwyddorion rhydd, a gwnaed y Parch. J. E. Jones yn olygydd iddo, gyda'r Parch. D. L. Evans yn gynorthwywr iddo. Galwyd y misolyn Yr Ymofynydd, a golygwyd ef gan Mr. Jones hyd ei farwolaeth yn 1866. Darfyddodd wedi hyn am ddwy flynedd a haner. Ail-gychwynwyd ef drachefn yn 1868 gyda'r Proffeswr fel ei olygydd, yr hon swydd a lanwodd yn ffyddlon a medrus hyd 1872, pan y dilynwyd ef yn yr olygyddiaeth gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Yn y flwyddyn 1850, ar y 4ydd dydd o fis Chwefror, derbyniodd y Proffeswr lythyr a arweiniodd i'r amgylchiadau mwyaf ffodus yn ei oes. Llythyr oedd oddiwrth George Eyre Powell, Ysw., yn ei wahodd i ddyfod i bre-

gethu i Colyton, gyda golwg ar iddo, yn ol llaw, i ymsefydlu yno fel gweinidog. Yno yr aeth, ac wedi gwasanaethu am ddau Sul, y mae'n cael galwad cyn dychwelyd, i ddyfod yno yn fugail ar yr eglwys. Y mae'n ateb yr alwad yn gadarnhaol, ac yn symud yno mor gynted ag y mae amgylchiadau yn caniatau. Cymaint oedd ei boblogrwydd fel ysgolfeistr yn Mhenybont fel y darfu i amryw o'i ysgolheigion ei ddilyn i Colyton.

Y Diweddar Barchedig Broffeswr Evans.

Treuliodd dair blynedd ar ddeg o'i fywyd yn y maes hwn, lle y gwelodd lawenydd a thristwch. Ar y 19eg o fis Mawrth, 1853, ymbriododd ag Ophelia Catherine, merch henaf George Eyre Powell, Ysw., R.N., a Catherine Kingdom ei wraig. Ganwyd iddynt bedwar o blant yn yr hen gartref tô gwellt. Bodolai y teimladau goreu rhyngddo a'i gyn-

ulleidfa, a gellid disgwyl iddo dreulio ychwaneg na thair blynedd ar ddeg mewn amgylchiadau mor gysurus, ond fel arall y bu. Ar farwolaeth Dr. Lloyd, prifathraw Coleg Caerfyrddin, yn 1863, daeth cadair wag yn y Coleg, a chafodd yntau ei benodi i'w llanw, fel athraw Hebraeg a Rhifyddeg. Yn ystod ei arosiad yn Colyton, gwelodd gladdu ei dad a'i fam-yn-nghyfraith, dwy o'u mherched, a llawer eraill o aelodau blaenaf y gynulleidfa yn y gladdfa fechan ar bwys y Ty Cwrdd, lle y cafodd yntau achos, yn mhen tua blwyddyn wedi symud i Gaerfyrddin, i fyned a chorph ei wraig a'i blentyn ieuengaf. Am y deng mlynedd y bu yn llanw'r swydd yn y Coleg, gweithiodd yn galed a llwyddianus. Yn 1874 ymddiswyddodd, ac aeth i fyw i Birkenhead er mwyn cyfleusdra ei feibion. Gwnaeth lawer o gyfeillion yma, a cheisiodd wneud ei hun mor ddefnyddiol ag y gallai, drwy bregethu yn y gwahanol gapelau, pan y byddai galw am hyny. Yn fuan wedi iddo ymsefydlu yn Birkenhead, darfu i'r B. & F. U. A. sicrhau ei wasanaeth fel cenhadwr yn Ngogledd Cymru. Yn 1879 cydsyniodd a chais gwresog ei hen gynulleidfa yn Colyton i'w gwasanaethu am flwyddyn. Gwnaed llawer o welliantau yn y lle yn ystod y flwyddyn. Fel yr oedd y blynyddau yn rhedeg, daeth i dreulio rhagor o'i amser yn barhaus gyda'i hen chwiorydd yn ardal Llanybyther. Yn y diwedd gwnaeth ei gartref yn y Rheol Cottage, o'r lle y claddwyd ei chwaer olaf, ac y cafodd ei adael yr olaf o'r teulu. Yn niwedd 1901, cyrhaeddodd y newydd galarus ef o Aberystwyth fod ei chwaer-yn-nghyfraith, Miss Powell, wedi gorphen ei gyrfa. Mewn canlyniad i hyn gadawodd Rheol Cottage ac aeth i aros gyda'i fab a'i ferch i Tanybryn, Aberystwyth. Treuliodd y deg mis diweddaf o'i oes yn hynod gysurus dan yr amgylchiadau, gan gymeryd dyddordeb mawr yn mhob peth oedd yn cymeryd lle o fewn ei wybodaeth, yn enwedig yn yr achos Undodaidd ieuanc yn nhref Aberystwyth. Daeth y diwedd yn hollol ddirybudd ac anisgwyliadwy. Wedi cymeryd ei luniaeth ganol dydd, eisteddodd i lawr i ddarllen, ac ehedodd ei yspryd at yr Hwn a'i rhoes yn gynt na gwenol y gwehydd. Bu farw yn y 90ain mlwydd o'i oedran ar y 29ain o Hydref, 1902. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol yn ymyl ei chwaer-yn-nghyfraith yn Mynwent Alltyplaca yn mhresenoldeb amryw gyfeillion. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y Capel yn Saesneg, ac ar lan y bedd yn Gymraeg, gan y gweinidog yr hwn hefyd a bregethodd ei bregeth angladdol yn y tri Chapel, Sul, Tachwedd y 9fed. Ar yr un Sul, yn Aberystwyth, cynhaliwyd gwasanaeth cyffelyb, a'r Parch. T. Arthur Thomas, Llandyssul, yn pregethu. Nid oes neb o blant dynion yn gadael y byd hwn heb adael gwersi i eraill. Yn y bywyd ydym wedi geisio fraslinellu dysgwn beth a all ymgyflwyniad trylwyr i amcanion uchel wneud yn ngwyneb anfanteision mawrion. Nac anghofiwn y graig o'r hon ein naddwyd. Os yn bosibl cynorthwywn henaint a methiant fel y gwnaeth yr ymadawedig a'i dad a'i chwiorydd. Byddwn ffyddlon i'r goleuni uwchaf sydd ynom heb gael ein cylcharwain ag athrawiaethau amryw a dieithr. "Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai draethasant i chwi Air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt." Ei weithred olaf o haelioni oedd talu am sychu'r fynwent, lle y mae ei gorph yn awr yn gorphwys.

Yr uffern waethaf ydyw amheu cariad Duw, ac yr ydym yn troi ymaith oddiwrth wyneb ein Tad pan y gwnawn ddrwg. Ond, os ydyw uffern bob amser yn agos, y mae nefoedd hefyd yr un mor agos.

PRIODAS.

TACHWEDD 11eg, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Pontypridd, Mr. David John Jones, 26, Duffryn Street, Ferndale, a Miss Maggie Mary Thomas, 78, Bute Street, Treorchy. Y mae y briodferch yn aelod o gynulleidfa Glanrhondda, ac yn wyres i'r diweddar Dafydd a Joan Thomas, Treorchy, gynt o Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar. Dymunwn i'r ddau hir oes a bendith y nefoedd ar eu huniad.

MARWGOFION.

HYDREF 5ed, yn 40 mlwydd oed, Jennet, anwyl briod William H. Thomas, Heol Abertawe, Trebanos. Claddwyd ar yr 11eg cyfisol, yn yr Alltwen. Pregethwyd gan y Parch. T. J. Jenkins, Trebanos. Cydymdeimlir yn fawr iawn a'r rhai a adawyd i alaru ar ol priod a mam dyner. Os yw cadair wag yr aelwyd yn pregethu hiraeth, mae'r galon yn gweled y gobeithiol sydd tuhwnt i'r hiraeth hwnw.

HYDREF y 15fed, ar ol cystudd caled, yn ei 67 mlwydd, Jane Jones, Wern, Cellan. Ar anogaeth ei meddygon lleol, aeth yn ngwmpeini ei nhith a'i nhai, Mr. a Mrs. Jones, Ogmore House, Llanbedr, i Leeds, gan obeithio dderbyn lles oddiwrth feddyg enwog yno, ond i gyd yn ofer, oblegyd wedi cyrhaedd yno gwanhaodd bob dydd nes y terfynodd ei gyrfa ar y dydd uchod. Dygwyd ei chorff yn ol i'r Wern, mewn trefn i'w gladdu yn ymyl yr eiddo ei hanwyliaid, yn mynwent Caeronen. Gwasanaethwyd ddydd yr angladd yn y tŷ a'r capel gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. D. Evans, Cribyn. Yr oedd Miss Jones yn adnabyddus iawn yn mhlith ei chydgrefyddwyr fel un a wnaeth ei rhan yn mhob modd dros yr achos goreu. Y mae ei lle yn y tŷ, y capel a'r gymydogaeth yn wâg iawn. Gadawodd yn ei hewyllys olaf £200 at eglwys Caeronen.

TACHWEDD 7fed, yn 83 mlwydd oed, Margaret Davies, Cwmhendryd, Llanbedr, diweddar o'r Hendy, Neuaddfawr, gan adael un mab i alaru ar ei hol. Hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes dydd Iau canlynol. Gweinyddwyd gan weinidog y lle.

TACHWEDD 8fed, bu farw John Jones, 7, Pit Place, Cwmbach, Aberdar, yn 73 mlwydd oed. O ardal Pontshan, Llandyssul, y daeth efe a'i briod i Gwmbach ac yr oeddynt yn ffyddlon iawn un amser gyda'r achos yn y lle. Bu Mrs. Jones farw Awst 19eg, 1901. Bu Mr. Daniel Jones (o ardal Cribyn) a'i briod yn ofalus iawn o'r ymadawedig; bydded iddynt gofio geiriau yr Athraw, "Yn gymaint a gwneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch." Claddwyd y dydd Mawrth canlynol yn *Cemetery* Aberdar, y Parch. D. Evans, Cwmbach, yn gwasanaethu.

TACHWEDD 12fed, yn y Welsh Harp, Trecynon, Aberdar, Samuel

Samuel, yn 27ain oed, gan adael gweddw a thri o blant bychain. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. David Rees a R.J.J., a chladdwyd yn y *Cemetery*. Yr oedd yr ymadawedig yn nai fab chwaer i'r diweddar Thomas Lewis, Telynor Cefn Mabli.

TACHWEDD 14eg, bu farw Thomas Williams, *Steady Pointer*, y Wîg, yn 69 mlwydd oed. Bu yr ymadawedig yn ddiacon gweithgar, a thrysorydd cywir i'r eglwys fechan yn y Wîg am lawer o flynyddoedd; ac ni fu yr un aberth erioed yn ormod iddo ef ei chyflawni er mwyn yr achos a garai mor fawr. Wedi methiant yr hen frawd anwyl, William John, edrychid ar Twmi William fel y pen yn y capel, a'i air ef oedd i sefyll bob amser. Bellach y mae y prif golofnau wedi syrthio, a mawr hyderwn y gwisga y plant am danynt nerth y tadau. Y dydd Mercher canlynol daeth tyrfa luosog i'w angladd a chladdwyd ei weddillion yn y gladdfa wrth y capel. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. W. J. Phillips, Nottage. Yn y capel darllenodd a gweddiodd y Parch. H. Robinson, Abercynon. Pregethwyd (ar gais yr ymadawedig cyn ei farwolaeth) oddiar Ioan xiv. i. 2, gan y Parch. D. Evans, Cwmbach, Aberdar. Ar lan y bedd rhoddodd y Parch. D. Rees, Rhondda, ddatganiad o'i barch i goffadwriaeth ein hanwyl frawd, ac wedi canu yr hen benill "O fryniau Caersalem," yr hwn oedd Twmi mor hoff o'i roddi allan yn y gwasanaeth, aeth pawb oddiwrth y bedd gan deimlo yn eithaf sicr fod Cristion pur wedi cael mynediad i mewn i lawenydd ei Arglwydd. Bendith Duw fyddo yn gysgod amddiffynol i'r teulu lluosog sydd mewn galar ar ei ol, a bydded i grefyddolder yspryd y tad gael lle yn meddyliau y plant, fel y bydd iddynt hwy fel efe, dreulio eu dyddiau yn ngwasanaeth yr Arglwydd.

TACHWEDD 15fed, yn 13 oed, Mary Evans, unig ac anwyl ferch Mr. Evan Evans a Mrs. Evans, Glynmene, Llandyssul. Rhyw ddeg diwrnod cyn ei marwolaeth cafodd ei chymeryd yn glaf gan y dolur gwddf, yr hwn sydd yn ddrwg yn y gymydogaeth, ac yr oedd ei chorff egwan er pob gofal yn analluog i'w ddal. Yr oedd yn un o'r rhai ffyddlonaf yn Ysgol Sul, Pantdefaid. Trwy ei hymddygiad addfwyn a thawel, enillasai serch yr athrawon a'i chydysgolheigion. Blant ieuainc, efelychwch ei ffyddlondeb a'i diniweidrwydd. Y dydd Mawrth canlynol gosodwyd ei phabell fechan yn mynwent Pantdefaid, yn nghanol arwyddion o hiraeth a galar. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, a chafwyd gair o gysur ac anogaeth gan y cyn-weinidog, a gweddiwyd ar lan y bedd gan Mr. Jenkins, Llwyn.

TACHWEDD 21ain, Albert, mab Rees Price, 78, Gadlys Road, Aberdar, yn bedair oed. Gweinyddwyd gan R.J.J.

"*Bear up, bear on, the end shall tell,*
The dear Lord ordereth all things well."

TACHWEDD 21ain, yn 60 oed, Mr. Thomas Thomas, Gyfeile, gynt o Cwmdyllest, Llandyssul. Ni chafodd yr ymadawedig ond rhyw bythefnos o gystudd, cyn i'w ddaearol dŷ ymddatod. Bu yn ddyn trefnus ac yn weithiwr caled drwy ei fywyd, a diau y gwelir ei eisiau mewn amryw gylchoedd. Ar adeg ei farwolaeth llanwai y swyddi o Warcheidwad y Tlodion, aelod o Gynghor Dosbarth Llandyssul, aelod o'r Bwrdd Ysgol, a Thrysorydd Eglwys Pantdefaid. Bu o wasanaeth mawr, gydag ereill, tra yn adeiladu y capel a'r neuadd yn Mhantdefaid. Yr oedd ei gynlluniau trefnus bob amser yn werthfawr iawn gan y Pwyllgor. Tra y gwneir bylchau aml fel hyn yn y gymydogaeth ac yn yr eglwys, mawr hyderir y bydd mantell y tadau i syrthio ar ysgwyddau y plant fel na fyddo i'r achos da ddioddef. Y dydd Mawrth canlynol gosodwyd ei weddillion i orphwys yn Mhantdefaid. Gwasanaethwyd a phregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Thomas

Thomas, E. O. Jenkins, a J. Davies, Alltyplaca. Yn ei farwolaeth gadawa un mab mewn galar dwfn ar ei ol, a dau frawd, heblaw perthynasau eraill ac amryw gyfeillion anwyl.

TACHWEDD 22ain, dranoeth i angladd ei frawd, bu farw Rees Fisher, mab Rees Price, 78, Gadlys Road, Aberdar, o fewn ychydig i chwech oed· Claddwyd ar y Llun, R.J.J. yn gweinyddu.

"*Ye long for household voices gone,*
For vanished smiles ye long ;
But God hath led your dear ones on,
And he can do no wrong."

HANES YR EGLWYSI.

YR YSMOTYN DU.—Y mae yn llawenydd genym weled y croesaw mae'r anerchiad hwn wedi gael nid yn unig yn Nghymru a Lloegr, ond hefyd yn yr America. Wedi iddo gael ei gyhoeddi yn Gymraeg yn yr YMOFYNYDD gwnaeth Golygydd y *Christian Life* gais ar iddo gael ei gyfieithu i'r Saesneg, ac ymddangosodd yn y papyr hwnw. Yn awr gwelwn ef ar ei hyd yn y *Christian Register*, papyr wythnosol gyhoeddir yn Boston, U.D. America. Gwneir sylwadau caredig arno gan bapyrau ereill y wlad hono.

ABERDAR.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch yn yr Hen Dy Cwrdd ar Sul, y 9fed o Dachwedd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Lewis Williams, Rhydygwin a H. Fisher Short, Highland Place, yn Saesneg. Cafwyd pregethau rhagorol, cynulleidfaoedd da, a chasgliadau gwell nag arferol.

YR ACHOS YN LLUNDAIN. — Yr ydym yn deall fod ymdrech i gael ei gwneud ar fyrder i adfywio'r achos yn y brifddinas, ac i'w sefydlu ar sylfeini parhaol. Gofynir i bawb ag sydd yn dymuno'n dda i'r achos anfon eu henwau yn ddiatreg i Mr. Evans, 5, Fetter Lane, London, E.C.

CAERONEN. — Cynhaliodd cynulleidfa y capel uchod eu cwrdd Diolchgarwch ar y 30ain o Hydref. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog a'r Parch. Lewis Williams, Rhydygwin.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Sul a nos Lun, Hyd. 19 a 20, cynhaliodd yr eglwysi uchod eu cyrddau hanerblynyddol. Pyramidiau yr oedfaon oeddynt y Parchn. Lewis Williams, Rhydygwin, ac E. O. Jenkins, Llwyn. Cafwyd cyrddau da.

CEFNCOED. — Cynhaliodd y bechgyn ieuainc perthynol i *String Band* yr Hen Dy Cwrdd gyngerdd arderchog nos Lun yr 20fed o Hydref. Yr oedd un hynodrwydd yn nglŷn a'r cyngerdd hwn, sef fod y sawl a gymerasant ran ynddo yn dal cysylltiad a'r eglwys, oddigerth Miss Thomas, un o'r cyfeilyddesau, a Miss Jones, o Benydarren, yr hon a roddodd ddau adroddiad campus. Chwareuodd y *Band* yn odidog iawn, ac yr oedd yr unawdau ar y crythau, ac ar y *mandoline* yn amheuthyn i'r sawl oedd yn gwrando. Canodd y côr 'Y nant a'r blodeuyn" yn feistrolgar, a'r côr o fechgyn yr un modd. Hyderwn y glyna aelodau y *Band* gyda'u gilydd, ac yr ânt rhagddynt at fwy o berffeithrwydd. Trodd y gyngerdd allan yn llwyddiant mawr yn mhob ystyr.

ABERYSTWYTH.—Boreu Sul, Tach. 9fed, cynaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol i'r diweddar Barchedig Broffeswr D. L. Evans. Pregethwyd yn Saesneg gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandyssul, oddiar

Hebreaid xii. 1, a gwnaeth gyfeiriadau tyner at yrfa hir a llafurus Mr. Evans, fel gweinidog Undodaidd, Proffeswr yn Ngholeg Caerfyrddin, a Golygydd YR YMOFYNYDD. Chwareuwyd yn fedrus ar yr *harmonium* gan Miss Bessie Evans, Coleg y Brifysgol (Alltyrodyn Arms). Yr oedd pedwar-ar-hugain yn bresenol, yn cael eu gwneud i fyny o fyfyrwyr ac athrawon y Coleg a phreswylwyr y dref. Lluddiwyd rhai o'r aelodau rheolaidd i fod yn bresenol gan y tywydd ystormus. Y mae agwedd obeithiol ar yr achos bychan, a meddianir yr holl aelodau gan yspryd brwdfrydig. Yr un dydd cychwynwyd Ysgol Sul, a darllenir Efengyl Marc.

DYDDIAU IEUENGCTYD ('YOUNG DAYS') ydyw enw y cyhoeddiad newydd ddygir allan i blant yr Ysgol Sul genym. Misolyn Saesneg ydyw, a chyhoeddir ef yn bresenol gan Gymdeithas Ysgol Sul Undodaidd Llundain, ac ychwanegir pedair tudalen yn Gymraeg o dan olygiaeth y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, Bydd yn cynwys ystoriau blasus, hanesion dyddorol i blant yn nghyd a darluniau eglurhaol. Cyhoeddir ef tua chanol pob mis. Y mae YR YMOFYNYDD yn dymuno i'r misolyn ieuanc bob llwyddiant ar ei yrfa newydd, cylch helaeth o ddarllenwyr, a chroesaw cynhes yn mhob cartref.

TALIADAU.—Sylwa, ddarllenydd hynaws, ar liw amlen YR YMOFYNYDD hwn. Ni ddywedaf ddim yn rhagor gan y gwyddost bellach beth raid i ti ei wneuthur. "Llunier i gall haner gair." Ond dymunaf ofyn yn garedig i ti, os ydwyt yn teimlo dyddordeb ynddo, ac y caret weled yr egwyddorion broffesa yn lledaenu, dywed air caredig o'i blaid weithiau, a gwna yr hyn elli er iddo gael cylchrediad helaethach eto, ac i fod yn fwy o allu o hyd i fod fynu a'i arwyddair—"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD."

CONGL YR AWEN.

WEDI GWLAW DAW HINDDA.

Ysgrifenwyd y llinellau canlynol i gysuro un anwyl oedd yn gorwedd ar ei gwely angau, ac ychydig oriau ar ol eu derbyniad ehedodd ei "hyspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes."

Hir yw cwynfan, pell yw cysur,
Gyda'r ddynol ryw ;
Ond mae balm i bob rhyw ddolur,
Gyda Duw.

Wedi'r gauaf daw y gwanwyn
Tyner yn ei ol ;
Daw a blodau glas a melyn,
Yn ei gôl.

Wedi stormus ferw'r eigion,
Wedi'r braw a'r aeth ;
Bydd tawelwch mwyn freuddwydion
Ar y traeth.

Wedi'r sychwynt miniog treiddgar,
Daw y gafod fwyn ;
Ac fe ddeffry nodau adar
Yn y llwyn.

Wedi nych yr hirnos lethol,
Pan yr oeda'r awr ;
Fe ymdaena gobaith bywiol
Gyda'r wawr.

Dyn ymlwybra yn ei gyni
Tua'r dyffryn du ;
Ceisia, gwaedda am oleuni
Oddi fry.

Daw i loni'r ofnus enaid,
Wenau'r engyl gwyn ;
Ac fe dŷr y wawr fendigaid
Draws y glyn.

CYFAILL.

COLOFN Y GOLYGWYR.

Mae dwy flynedd yn mron myned heibio er pan y cychwynodd YR YMOFYNYDD ei yrfa fel *Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.* Yr ydym yn cael tystiolaethau parhaus fod yr ymdrechion a wnawn o fis i fis i wneud y papyr yn gyfrwng byw o wahanol agweddau y mudiad Rhyddfrydig mewn Crefydd ar gyfer angenion Cymreig, yn cael eu gwerthfawrogi. Ysgrifenodd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, atom yn ystod y mis hwn, ac yr ydym yn ddiolchgar neillduol am ei eiriau cefnogol. Fel un o hen Olygwyr YR YMOFYNYDD ac am resymau ereill, nis gwyddom am neb arall ag y byddai ei dystiolaeth yn fwy boddhaol. Dywed : "Yr ydych yn teilyngu clod mawr parthed ansawdd YR YMOFYNYDD er y pryd y mae o dan yr arolygiaeth newydd. Hir y parhao ei lwyddiant."

Nid ydym yn amheu na fu adegau yn hanes YR YMOFYNYDD pan oedd ei gymeriad oddiar safle Llenyddiaeth Gymreig yn uwch nag ydyw heddyw. Bu YR YMOFYNYDD unwaith mor ffodus a sicrhau gwasanaeth ffyddlon cewri fel Thomas Stephens, o Ferthyr, ac ereill, enwau y rhai ydynt yn fendigedig yn hanes Undodiaeth yn Neheudir Cymru. Ond credwn, er hyny, fel papyr defnyddiol a darllenadwy, ac yn apelio at gylch eangach o ddarllenwyr nag y bu erioed o'r blaen, fod gan YR YMOFYNYDD fantais neillduol i fod o wasanaeth i egwyddorion Rhyddfrydig yn nghanol cyffroadau diorphwys y meddwl crefyddol o'n hamgylch. Gan ymddibynu ar ffyddlondeb ein gohebwyr, i'r rhai y dymunem dalu ein diolchgarwch gwresocaf, am eu help gwerthfawr yn y gorphenol, yr ydym, i ryw fesur, yn gallu rhagddarbod trefniadau y flwyddyn 1903. Yn nghyfres yr erthyglau ar Weinidogion Undodaidd fel Ysgolfeistri, fe ymddengys yn rhifyn Ionawr ysgrif nodedig o ddyddorol ar W. Rees, Rhydygwin, gan y Parch. J. J. Jones, B.A., Llanelli. Yn ystod y flwyddyn bydd y Parch. Evan Phillips (M.C.), Castellnewydd Emlyn, yn ysgrifenu ar John Davies, Llwyn ; Mr. D. E. Jones, Machen, ar W. E. Davies, Cribyn ; y Parch. J. M. Gibbon, Llundain, ar y Proffeswr Hunter, &c. O dan y penawd Pleidwyr Cynydd mewn Crefydd ymddengys ysgrifau ar Socrates, Dr. Martineau (gan un o'i ysgolheigion), y Proffeswr Drummond, Savonarola, &c. Bydd un ysgrifenydd medrus yn gwneud ei ymgais gyntaf fel nofelydd ar faes YR YMOFYNYDD y flwyddyn nesaf. Ymddengys penod o'r *stori* bob mis, a gofala'r awdwr fod ynddi edefyn o ddyddordeb crefyddol fydd yn ei dwyn tufewn i gylch amcanion YR YMOFYNYDD. Teimlwn yn sicr y bydd y *feature* newydd hon yn apelio yn neillduol at ein pobl ieuainc. Gyda'r awgrymiadau amherffaith hyn o gyfoeth bwrdd y flwyddyn nesaf, ymddibynwn yn hyderus ar ffyddlondeb ac ymdrech ein dosbarthwyr a'n darllenwyr yn achos cyhoeddiad sydd ganddo fantais heddyw, rhagor nag un adeg arall yn ei oes hir o bymtheg mlynedd a deugain, i fod o wasanaeth i achos sydd mor anwyl i ni oll.—Y GOLYGWYR.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.